**Adroddiad i'r:** **Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol**

**Dyddiad y Cyfarfod:** **10fed Ebrill 2013**

**Aelod Arweiniol / Swyddog:** **Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd**

**Awdur yr Adroddiad:** **Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd**

**Teitl:** **System Bleidleisio Electronig**

---

## 1. Beth yw byrdwn yr adroddiad?

1.1 Gweithredu'r system bleidleisio electronig yn Siambr y Cyngor a goblygiadau cyfansoddiadol newid sut caiff ei defnyddio.

## 2. Pam cyflwyno'r adroddiad hwn?

2.1 Rhoi gwybodaeth ar weithredu'r system bleidleisio electronig, ceisiadau sydd wedi eu gwneud am wybodaeth o'r system a goblygiadau newid sut caiff y system ei defnyddio.

## 3. Beth yw'r argymhellion?

3.1 Bod y Pwyllgor yn cydnabod cynnwys yr adroddiad ac yn gwneud argymhellion ynglŷn â gweithredu'r system bleidleisio electronig yn Siambr y Cyngor yn y dyfodol.

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1 Mae Rheolau Sefydlog y Cyngor yn nodi sut gweithredir pleidleisio yng nghyfarfodydd y Cyngor neu ei bwyllgorau. Mae'r Rheolau Sefydlog yn darparu ar gyfer pleidleisio trwy godi dwylo neu gadarnhad y cyfarfod. Cynhelir mwyafrif y cyfarfodydd mewn ystafelloedd cyfarfod ar wahân i Siambr y Cyngor yn Neuadd y Sir, lle nad oes cyfleusterau pleidleisio electronig. Dim ond y Cyngor Llawn a'r Pwyllgor Cynllunio sy'n cyfarfod yn rheolaidd yn Siambr y Cyngor.

4.2. Defnyddir y system bleidleisio electronig yn Siambr Neuadd y Sir i gynhyrchu niferoedd cyflym cywir yr aelodau sy'n pleidleisio o blaid, yn erbyn neu'n ymatal pleidlais ar gynnig. Mae'r system hefyd yn cofnodi sut mae pob aelod yn pleidleisio a gofynnir am y cofnodion hynny o bryd i'w gilydd gan gynghorwyr, y wasg ac aelodau'r cyhoedd. Oherwydd y defnydd a wneir o'r system bleidleisio, ar hyn o bryd nid yw'r Cyngor yn debygol o ryddhau gwybodaeth ar bleidleisiau unigol (hyd yn oed ar ôl cais Deddf Rhyddid Gwybodaeth) oherwydd na fedr y Cyngor warantu cywirdeb yr wybodaeth.

4.3 Oherwydd defnyddir y system bleidleisio electronig i gofnodi nifer y pleidleisiau o blaid, yn erbyn neu'n ymatal mewn perthynas ag unrhyw fater i'w benderfynu mewn

cyfarfod, byddai angen rhagofalon ychwanegol i warantu cywirdeb cofnod y pleidleisiau a ddyrannwyd i gynghorwyr penodol. Byddia'r rhain yn cynnwys trefniadau i sicrhau nad yw aelod byth yn symud o sedd a ddyrannwyd (neu bod eu cerdyn pleidleisio yn symud gyda nhw) a bod archwiliad trylwyr yn cael ei wneud ar roddi cardiau pleidleisio i ddileu unrhyw bosibilrwydd o gamgymeriad. Byddai angen i gynghorwyr hefyd gymryd cyfrifoldeb am sicrhau bod y cerdyn pleidleisio cywir wedi ei ddyrannu iddynt. Gan nad oes angen y mesurau hyn i ganiatáu i'r system bleidleisio gyfrif yn gywir nifer y pleidleisiau sydd wedi eu bwrw nid ydynt wedi eu cyflwyno, a gwelir y cofnod electronig o'r pleidleisiau unigol sydd wedi eu bwrw fel sgil-gynnyrch y system, nid cofnod dibynadwy. Dylid nodi y gellid cyflwyno rhagofalon ychwanegol os cytunir bod y cyhoedd yn cael mynediad at y cofnodion pleidleisio a enwyd, ond na ddylai hyn fod yn ôl-weithredol.

4.4 Mae trefniant eisoes yn y Rheolau Sefydlog i gofnodi sut caiff pleidleisiau eu bwrw, sy'n golygu bod pob cynghorydd yn datgan sut mae'n pleidleisio. Gelwir hyn yn bleidlais gofnodedig. Cymerir pleidlais gofnodedig pan fydd un chweched o'r aelodau sy'n bresennol yn galw am hynny. Bydd canlyniadau pleidlais gofnodedig yn cael eu nodi yng nghofnodion y cyfarfod perthnasol.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu tuag at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Nid yw'r penderfyniad hwn yn cael effaith uniongyrchol ar y blaenoriaethau corfforaethol.

## 6. Beth fydd y gost a sut fydd yn effeithio gwasanaethau eraill?

Nid oes costau ychwanegol yn uniongyrchol gysylltiedig â'r adroddiad hwn.

## 7. Pa ymgynghori a fu ac a ymgymerwyd â Sgrinio Asesiad o'r Effaith ar Gyfraddoldeb?

Mae asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb yn asesu effaith debygol penderfyniadau ar bobl sy'n rhannu nodweddion a warchodir. Ni ystyrir bod y materion yn yr adroddiad hwn yn cael unrhyw effaith ac felly nis ymgymerwyd ag unrhyw asesiad ffurfiol.

## 8. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Nis gofynnwyd am hyn ar hyn o bryd.

## 9. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y medrwn ei wneud i'w lleihau?

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r risgiau sydd ynghlwm wrth ryddhau cofnodion pleidleisio i'r cyhoedd. Mae'r adroddiad hefyd yn nodi'r mesurau y byddai eu hangen os yw'r Cyngor yn penderfynu rhyddhau'r cofnodion yn y dyfodol.

## 10. Pŵer i wneud y Penderfyniad

10.1 Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Rheolau Sefydlog) (Cymru) 2006